

Y Pwyllgor Cyllid  
**Adroddiad ar Fil Iechyd y  
Cyhoedd (Cymru)**

---

Chwefror 2017



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Cyllid

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid](http://www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyllid**  
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**  
E-bost: **[SeneddCyllid@cynulliad.cymru](mailto:SeneddCyllid@cynulliad.cymru)**  
Twitter: **[@SeneddCyllid](https://twitter.com/SeneddCyllid)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Pwyllgor Cyllid  
**Adroddiad ar Fil Iechyd y  
Cyhoedd (Cymru)**

---

Chwefror 2017



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Cyllid

# Y Pwyllgor Cyllid

Cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 19; swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.10 a 18.11; ac ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â Chronfa Gyfunol Cymru.

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Simon Thomas AC (Cadeirydd)**  
Plaid Cymru  
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Mike Hedges AC**  
Llafur Cymru  
Dwyrain Abertawe



**Steffan Lewis AC**  
Plaid Cymru  
Dwyrain De Cymru



**Eluned Morgan AC**  
Llafur Cymru  
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Nick Ramsay AC**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Mynwy



**Mark Reckless AC**  
UKIP Cymru  
Dwyrain De Cymru



**David Rees AC**  
Llafur Cymru  
Aberafan

---

## Roedd yr Aelod canlynol yn bresennol fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Huw Irranca-Davies AC**  
Llafur Cymru  
Ogwr

# Cynnwys

Argymhellion .....	5
01. Cefndir a throsolwg.....	7
02. Effaith ariannol gyffredinol y Bil ar awdurdodau lleol .....	10
03. Y goblygiadau ariannol sydd ynghlwm wrth greu cofrestr o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin.....	13
04. Y goblygiadau ariannol sydd ynghlwm wrth gyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer triniaethau arbennig.....	16
05. Y goblygiadau ariannol sydd ynghlwm wrth gyflwyno asesiadau o'r effaith ar iechyd .....	18
06. Y goblygiadau ariannol sydd ynghlwm wrth y darpariaethau'n ymwneud â gwasanaethau fferyllol .....	20
07. Goblygiadau ariannol y cynigion sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi strategaethau toiledau lleol.....	23
08. Goblygiadau ariannol is-deddfwriaeth:.....	25



# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol i dalu am y costau ychwanegol y byddent yn eu hwynebu wrth roi darpariaethau'r Bil hwn ar waith. Gellid neilltuo'r arian i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n benodol i gynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Bil hwn. .... Tudalen 12

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid clustnodi'r cyllid ychwanegol i sicrhau y caiff ei ddefnyddio dim ond i alluogi awdurdodau lleol i gyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Bil hwn. .... Tudalen 12

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn ailfynegi argymhelliad y Pwyllgor blaenorol sef y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi gwybodaeth yn nodi faint o arian a godwyd gan bob awdurdod lleol drwy gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig i dalu'r costau gorfodi, ynghyd â gwybodaeth am y costau gorfodi y byddai'r awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth iddynt roi'r polisi hwn ar waith..... Tudalen 15

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai canllawiau Llywodraeth Cymru ar weithredu darpariaethau'n ymwneud ag asesu'r effaith ar iechyd esbonio'n glir sut y gellid creu cysylltiad rhwng yr asesiadau amrywiol y bydd cyrff cyhoeddus yn eu cynnal, a hynny er mwyn osgoi'r gost o ddyblygu gwaith. .... Tudalen 19

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro'r camau a gymerodd i geisio gwella'r ffordd y cyfrifiwyd y buddion cysylltiedig â lleihau amser teithio, cyn penderfynu peidio â'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil hwn. .... Tudalen 22

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu pa mor effeithiol fyddai'r darpariaethau'n ymwneud â thoiledau cyhoeddus o ran gwella mynediad i gyfleusterau a sicrhau gwerth am arian. .... Tudalen 24

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn ailfynegi argymhelliad y Pwyllgor blaenorol y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i ddatblygu dull mwy cyson o ddarparu costau cysylltiedig ag is-ddeddfwriaeth, a hynny yn achos pob Bil, er mwyn gallu craffu'n well ar y costau a buddion llawn. .... Tudalen 25

**Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid darparu'r gost  
amcangyfrifedig o roi is-ddeddfwriaeth ar waith, pan fo modd, pan gaiff  
Memorandwm Esboniadol diwygiedig ei gyhoeddi..... Tudalen 25**



# 01. Cefndir a throsolwg

1. Cyflwynwyd **Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)** (y Bil) gan Rebecca Evans AC, y Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol (y Gweinidog) ar 8 Tachwedd 2016.
2. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau tebyg i'r rhai a gynigir ym **Mil Iechyd y Cyhoedd** a gyflwynwyd yn y Pedwerydd Cynulliad, fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 3, ac eithrio'r cynigion yn y Bil blaenorol i gyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus.
3. Mae'r **Memorandwm Esboniadol** yn manylu ar brif ddibenion y Bil:
  - Ailddatgan cyfyngiadau ar ysmegu mewn mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig a gweithleoedd, a rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ymestyn y cyfyngiadau ar ysmegu i fangreodd ychwanegol neu gerbydau;
  - Gosod cyfyngiadau ar ysmegu ar dir ysgolion, tir ysbytai a meysydd chwarae cyhoeddus;
  - Darparu ar gyfer creu cofrestr genedlaethol o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin;
  - Rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ychwanegu at y troseddau sy'n cyfrannu at Orchymyn Mangre o dan Gyfyngiad yng Nghymru;
  - Gwahardd rhoi tybaco a/neu gynhyrchion nicotin i bobl ifanc o dan 18 oed;
  - Darparu ar gyfer creu cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer ymarferwyr a busnesau sy'n cyflawni pedair 'triniaeth arbennig' – aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatwio;
  - Gwahardd tyllu rhannau personol o gorff pobl ifanc o dan 16 oed;
  - Ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus gynnal asesiadau o'r effaith ar iechyd mewn amgylchiadau penodol;
  - Newid sut y mae gwasanaethau fferyllol ar gael yn ardaloedd y Byrddau Iechyd Lleol (BILLau), i greu system sy'n seiliedig ar anghenion cymunedau lleol;
  - Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu strategaeth leol ar gyfer toiledau cyhoeddus i gynllunio sut y maent am ddiwallu anghenion eu cymunedau; a
  - Galluogi 'awdurdod bwyd,' fel y'u diffinnir yn Ndeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, i gadw'r arian a godir drwy gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig am droseddau o dan y Ddeddf honno.<sup>1</sup>
4. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sy'n cyflwyno amcangyfrif o'r costau ychwanegol a fydd yn codi o'r Bil.
5. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth am oblygiadau ariannol y Bil gan y Gweinidog ar **19 Ionawr 2017**.

---

<sup>1</sup> Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3

## Craffu ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) a gyflwynwyd yn y Pedwerydd Cynulliad gan y Pwyllgor Cyllid blaenorol

6. Craffodd y Pwyllgor Cyllid blaenorol ar Fil Iechyd y Cyhoedd a gyflwynwyd yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, gan gymryd tystiolaeth lafar gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Gorffennaf 2015. Cyflwynodd y Pwyllgor ei **adroddiad** ym mis Medi 2015, gan wneud saith o argymhellion. Roedd y rhain yn cynnwys:

- y modd y cyflwynir y costau a buddion ariannol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol;
- nodi faint o arian a godwyd gan awdurdodau lleol i dalu costau gorfodi'r gofrestr o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin yn ddigon i dalu costau gorfodi awdurdodau lleol;
- effaith achos Hemming vs Cyngor Dinas Westminster ar allu awdurdodau lleol i dalu'r costau trwyddedu sydd ynghlwm wrth y Bil;
- y ffordd y cyfrifiwyd y buddion ariannol sydd ynghlwm wrth leihau'r amser teithio i gyrraedd gwasanaethau fferyllol; a
- datblygu dull mwy cyson o nodi costau cysylltiedig ag is-ddeddfwriaeth mewn Biliau er mwyn medru craffu'n well arnynt.

7. Ysgrifennodd y Gweinidog ar y pryd **at y Pwyllgor blaenorol ym mis Rhagfyr 2015**, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddariad am argymhellion 4 a 5. Yna, **ymatebodd yn ffurfiol i adroddiad y Pwyllgor ym mis Ionawr 2016**, gan dderbyn, neu dderbyn mewn egwyddor, weddill argymhellion y Pwyllgor.

### Cyflwyno'r costau a'r buddion yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol

8. Soniodd y Pwyllgor Cyllid blaenorol am eu pryderon ynghylch y dryswch posibl a allai godi drwy gyflwyno'r costau gwirioneddol ochr yn ochr â'r buddion ariannol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a oedd yn cyd-fynd â'r Bil blaenorol. Argymhellodd y Pwyllgor hwnnw y dylid diwygio'r costau a'r buddion yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil hwnnw a dangos tablau ar wahân ar gyfer y costau a'r buddion ariannol, ac na ddylai deddfwriaeth yn y dyfodol ddangos costau a buddion yn y modd hwn gan y gallai greu dryswch ac y gallai fod yn anfwriadol gamarweiniol.

9. Mewn ymateb i gwestiynau gan y Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog fod camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor blaenorol. Eglurodd fod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol blaenorol wedi'u diweddarau yn ystod taith y Bil blaenorol, gan gynnwys ychwanegu tablau cryno'n ymwneud â gwasanaethau fferyllol i wahanu costau a buddion ariannol, a bod y newidiadau a wnaed bryd hynny wedi'u cadw yn y Bil cyfredol.

10. Eglurodd y Gweinidog hefyd fod Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen ag argymhelliad y Pwyllgor blaenorol mewn perthynas â'r modd y cyflwynir Asesiadau Effaith Rheoleiddiol, a bod swyddogion wedi cyfarfod â Swyddfa Archwilio Cymru. Ychwanegodd fod y gwaith a wneir mewn ymateb i'r argymhelliad wedi arwain at nifer o newidiadau i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gan gynnwys cynnwys y tablau cryno:

“One of the key things that we have introduced, as I said previously, is the summary report or the summary document at the start of the RIA. I think that addresses some of those concerns. Welsh Government guidance has also been amended to ensure that costs and monetised benefits are presented separately

in future RIAs, and I think that again addresses one of those concerns that was raised... the summary tables at the start of the document—I think that they do address some of those concerns because it does show, as we see, that costs are split between administrative costs and compliance costs. And within that, costs involved with preparing, so the transitional costs to the implementation are there alongside the ongoing recurring costs as well. So, that, I think, provides a clearer level of information for people as well.”<sup>2</sup>

---

## Safbwynt y Pwyllgor

**11.** Mae'r Pwyllgor yn nodi sylwadau'r Gweinidog ynghylch y newidiadau i'r modd y cyflwynir yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol yn dilyn argymhelliad y Pwyllgor blaenorol, ac mae'n croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru i gydweithio. Mae hefyd yn croesawu'r gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru i wella'r wybodaeth a gaiff ei chynnwys yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu parhau i fonitro hyn drwy graffu ar oblygiadau ariannol y ddeddfwriaeth ac, os bydd am weld rhagor o newidiadau, bydd yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru yn ôl yr angen.

---

<sup>2</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2016, paragraffau 23-25

## 02. Effaith ariannol gyffredinol y Bil ar awdurdodau lleol

12. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn datgan y byddai'n costio tua £2.1 miliwn ychwanegol i awdurdodau lleol roi darpariaethau'r Bil ar waith rhwng 2017-18 a 2021-22, gan gynnwys £365,900 yn ystod y flwyddyn gyntaf.<sup>3</sup> Mae'r tablau yn Atodiad 4 i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhoi crynodeb o'r costau ychwanegol y rhagwelir y bydd cyrff gwahanol yn eu hwynebu wrth roi darpariaethau'r Bil ar waith, a dangosir ffigurau ar gyfer pob rhan o'r Bil. Ar sail y ffigurau hyn, y costau ychwanegol i bob awdurdod lleol fyddai tua £19,500 y flwyddyn rhwng 2017-18 a 2021-22.<sup>4</sup> Dywedodd yr uwch swyddog sy'n gyfrifol am y Bil wrth y Pwyllgor fod y costau bras hyn wedi'u cyfrifo ar gyfer Cymru gyfan yn hytrach nag ar gyfer awdurdodau lleol unigol, ac y byddai'n disgwyl i'r costau fod yn uwch i rai.<sup>5</sup>

13. **Yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Tachwedd 2016** dywedodd y Gweinidog wrth y Cynulliad ei bod wedi ceisio lleihau'r gost i lywodraeth leol, oherwydd y pwysau ariannol sy'n wynebu'r awdurdodau. Er enghraifft, cyfeiriodd at y darpariaethau'n ymwneud â throeddau hylendid bwyd, a fyddai'n caniatáu i awdurdodau lleol gadw'r arian a godir drwy gyflwyno hysbysiaidau cosb benodedig a'i ail-fuddsoddi yn y gwaith o archwilio safleoedd.

14. Mewn ymatebion i ymgynghoriad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, roedd nifer o awdurdodau lleol a sefydliadau cynrychioliadol yn cytuno na fyddai awdurdodau lleol yn gallu ymgymryd â'r cyfrifoldebau ychwanegol a gyflwynwyd o dan y Bil. Dywedodd Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru:

---

“DPPW warmly welcomes proposals to better protect public health and consumer rights but wishes to underline that the challenging financial environment within which we are currently managing our services means the need to ensure that any additional duties come with adequate funding or the ability to recover costs through fees.”<sup>6</sup>

---

15. Ychwanegodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC);

---

“I think there are some opportunities through the licensing to recover some of those costs, but there are probably some areas where there will be financial implications that we'll need to consider or monitor in more detail and continue discussions with Welsh Government if they're becoming too burdensome within those areas.”<sup>7</sup>

---

16. Ar y cyfan, roedd y rhai a gyflwynodd dystiolaeth i'r Pwyllgor Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Chwaraeon o blaid y system drwyddedu arfaethedig, a dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru y byddai'n galluogi awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau i ddiogelu'r cyhoedd yn fwy effeithiol.”<sup>8</sup>

---

<sup>3</sup> Y Memorandwm Esboniadol, Tabl A4.9, tudalen 332.

<sup>4</sup> Y Memorandwm Esboniadol, Tablau A4.1-A4.9, tudalennau 329-332

<sup>5</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2016, paragraff 35

<sup>6</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, [PHB 07, Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru](#)

<sup>7</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a chwaraeon, [Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016](#), paragraff 20

<sup>8</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, [PHB 04, Iechyd Cyhoeddus Cymru](#)

17. Roedd nifer o ymatebwyr yn cytuno â'r ddarpariaeth i awdurdodau lleol adennill eu costau, ac yn ôl Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru a Grwp Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru:

“the establishment of a fee system enabling local authorities to recover their costs will ensure that finance is available to deliver and is absolutely necessary in the current financial climate.”<sup>9</sup>

18. Dywedodd cynrychiolydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrth y Pwyllgor:

“I think, in terms of the general nature of the way that the Bill has been framed, the licensing elements all come with a cost recovery fee-setting basis, which should, if properly worked through, enable local authorities to recover the costs of that licensing process and also of any enforcement of the new proposed systems as well. So, I think as long as the framing of the legislation is designed to fully cover the costs of that administrative and enforcement work within the function of that local government structure, we'd be quite happy with that.”<sup>10</sup>

19. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r pwysau sy'n wynebu awdurdodau lleol, a'i bod wedi manteisio ar gyfleoedd i leihau'r gost i awdurdodau lleol wrth ddatblygu'r Bil, pan oedd hynny'n bosibl:

“Lots of things in the Bill just require local authorities to do some things differently, rather than to spend extra costs. I think that's an important thing to recognise. And, as I alluded to there, there are lots of opportunities within the Bill for local authorities to work very closely together, to collaborate, for example, on IT systems and taking a co-ordinated approach to training, or in communicating the Bill's provisions as well.”<sup>11</sup>

20. Aeth y Gweinidog rhagddi i ddweud nad oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi unrhyw arian ychwanegol i awdurdodau lleol i dalu am y gost o roi darpariaethau'r Bil ar waith, ond ei bod wedi ymrwymo i “dalw am unrhyw wahaniaeth rhwng y ffioedd a godir a'r gost o gynnal y gofrestr o fanwerthwyr”<sup>12</sup> yn y tymor canolig.

## Safbwynt y Pwyllgor

21. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol iawn y bydd y costau ychwanegol sydd ynghlwm wrth roi darpariaethau'r Bil ar waith yn faich sylweddol ar awdurdodau lleol a hynny ar adeg pan fo'u cyllidebau eisoes dan bwysau. Mae'n cydnabod y darpariaethau a wnaed i alluogi awdurdodau lleol i gasglu arian drwy godi ffioedd ac ail-fuddsoddi hyn i ymgymryd â'u cyfrifoldebau archwilio ac, yn y tymor hir, gallai'r gwelliannau i iechyd y cyhoedd a fyddai'n deillio o'r ddeddfwriaeth hon arwain at arbedion i bwrs y wlad. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn credu bod y buddsoddiad y mae disgwyl i lywodraeth leol ei wneud i roi'r Bil ar waith yn faich annheg o ystyried na fyddent yn elwa ar y buddion arfaethedig am gryn amser. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o'r cytundeb rhwng Llywodraethau blaenorol Cymru a CLILC i ariannu cyfrifoldebau newydd cyn eu trosglwyddo i gyrff llywodraeth leol, ac mae'n credu y

<sup>9</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, [PHB 04, Iechyd Cyhoeddus Cymru](#); [PHB 07, Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru](#) a [PHB 20, Penaethiaid Grŵp Iechyd yr Amgylchedd Cymru](#)

<sup>10</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, [Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016](#), paragraff 17

<sup>11</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2016, paragraff 31

<sup>12</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2016, paragraff 49

dylai Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol archwilio pa mor ymarferol fyddai rhoi trefniadau tebyg ar waith.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol i dalu am y costau ychwanegol y byddent yn eu hwynebu wrth roi darpariaethau'r Bil hwn ar waith. Gellid neilltuo'r arian i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n benodol i gynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Bil hwn.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid clustnodi'r cyllid ychwanegol i sicrhau y caiff ei ddefnyddio dim ond i alluogi awdurdodau lleol i gyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Bil hwn.

## 03. Y goblygiadau ariannol sydd ynghlwm wrth greu cofrestr o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin

22. Mae Rhan 2 o'r Bil yn cynnwys darpariaeth i greu cofrestr genedlaethol y byddai'n ofynnol i fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin gael eu cynnwys arni. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y byddai'n costio £84,700 ychwanegol i awdurdodau lleol rhwng 2017-18 a 2021-22, ac y byddai'r £148,100 y rhagwelir y byddai'n cael ei gasglu drwy godi ffioedd cofrestru ar fanwerthwyr, yn ddigon i dalu'r costau hyn.<sup>13</sup> Byddai Llywodraeth Cymru hefyd yn wynebu costau ychwanegol o ychydig dros £35,000 i ddatblygu'r gofrestr, i greu cynllun cyfathrebu a chyhoedduswydd.<sup>14</sup>

### Effaith y gofrestr ar y sector manwerthu

23. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer pennu'r ffi gofrestru mewn rheoliadau, ond mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai £30 fyddai'r ffi am yr adeilad cyntaf a £10 am bob adeilad ychwanegol.<sup>15</sup> Ar sail y ffigurau hyn, byddai'r manwerthwyr yn wynebu costau ychwanegol o ychydig o dan £285,000 rhwng 2017-18 a 2021-22.<sup>16</sup>

24. Wrth ymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliodd y Pwyllgor Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Chwaraeon, dywedodd cynrychiolwyr y sector manwerthu tybaco a chynhyrchion nicotin eu bod yn pryderu ynghylch goblygiadau ariannol y gofrestr. Dywedodd Ffederasiwn Cenedlaethol Manwerthwyr Papurau Newydd fod y tâl arfaethedig yn rhy uchel. I wneud elw o 27c, ar ôl treth, ar bob pecyn o sigarêts, byddai angen iddynt werthu 111 o becynnau i dalu am y ffi gofrestru:

“It is clear from these figures that whilst £30 may not seem like a significant sum, to an independent retailer it involves a great deal of hard work and eats into their already small profit margins. The charge to register could see many independent retailers close their shop, particularly when taking into account additional cost of doing business burdens, such as the Living Wage, Auto-Enrolment, Business Rates, etc; this will have an additional impact on their business.”<sup>17</sup>

25. Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, dywedodd y Gymdeithas Siopau Cyfleustra, os bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno cyflwyno cofrestr o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin, dylai'r gofrestr efelychu'r model a fabwysiadwyd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, lle nad oes ffi gofrestru.<sup>18</sup>

26. Yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Tachwedd 2016, cyfeiriodd y Gweinidog at y gofrestr gan ddweud bod Llywodraeth flaenorol Cymru wedi newid ei chynlluniau cychwynnol i'w gwneud yn ofynnol i fusnesau ailgofrestru bob tair blynedd, ac mai pryderon busnesau oedd y gyfrifol am y penderfyniad hwnnw:

<sup>13</sup> Y Memorandwm Esboniadol, tabl 7.6, tudalennau 136-137.

<sup>14</sup> Y Memorandwm Esboniadol, tabl 7.6, tudalennau 136-137.

<sup>15</sup> Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 440

<sup>16</sup> Y Memorandwm Esboniadol, tabl 7.6, tudalennau 136-137.

<sup>17</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, [PHB 32, Ffederasiwn Cenedlaethol Manwerthwyr Papurau Newydd](#)

<sup>18</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, [PHB 30, Cymdeithas Siopau Cyfleustra](#)

---

“We’re aiming to keep it as simple as possible to minimise the burden on business, so retailers will only need to notify the registration authority of any changes to the details of their entry once they’ve registered, rather than formally re-registering every three years, which is why a formal licensing system would have actually put more burden on business. That is why we’ve opted for this approach. It will also be a helpful resource in terms of local authorities being able to disseminate information, advice, guidance and support for businesses on their register, because, at the moment, they do rely to a large extent on local intelligence, which is quite fragmented. So, now they’ll be able to be aided much more robustly in their enforcement duties as well.”

---

**27.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y byddai’r ffi gofrestru yn cael ei phennu mewn rheoliadau, ac y byddai ymgynghoriad llawn ynghylch hyn. Aeth y Gweinidog rhagddi i ddweud ei bod yn credu bod y ffi arfaethedig, sef £30, yn deg ac y byddai’n rhannu’r gost o roi’r cynllun ar waith rhwng awdurdodau lleol a’r sector manwerthu:

---

“we have tried to consider how we can create not too much of a burden on one sector—so, not the entire burden on local authorities and not the entire burden on other sectors as well. So, I think that our approach has been fair and that £30 is a reasonable amount, but it will be subject to full consultation.”<sup>19</sup>

---

## Y costau gorfodi sy’n wynebu awdurdodau lleol

**28.** Mae’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys amcangyfrif o’r costau sydd ynghlwm wrth weinyddu’r gofrestr, gan gynnwys costau staff, paratoi canllawiau a chyflwyno hyfforddiant. Fodd bynnag, nid yw’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys amcangyfrif o’r costau sy’n wynebu awdurdodau lleol yng nghyswllt gorfodi’r gofrestr drwy archwilio’r manwerthwyr nad ydynt wedi’u cofrestru.

**29.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y byddai’n ofynnol i swyddogion llywodraeth leol ymchwilio i adroddiadau am fanwerthwyr nad oeddent wedi cofrestru i werthu tybaco a chynhyrchion nicotin.<sup>20</sup> Ar sail y profiadau yn yr Alban, dywedodd y byddai’n disgwyl i oddeutu saith hysbysiad cosb benodedig gael eu cyflwyno bob blwyddyn. Roedd yn credu mai tua £200 fyddai’r gosb, a £150 fyddai’r gosb is, ond byddai hyn hefyd yn cael ei bennu mewn reoliadau.<sup>21</sup> Mewn ymateb i gwestiynau gan y Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog y byddai’n rhesymol pennu’r un hysbysiad cosb benodedig ar gyfer pob awdurdod lleol, yn hytrach nag amrywio lefel y gosb o’r naill ardal i’r llall.<sup>22</sup>

**30.** Mewn ymateb i argymhelliad y Pwyllgor blaenorol ynghylch nodi faint o arian y bydd awdurdodau lleol yn gallu ei godi drwy gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig, dywedodd y Gweinidog fod swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i bennu pa mor ymarferol fyddai gwneud hyn.

## Safbwynt y Pwyllgor

**31.** Mae’r Pwyllgor yn nodi nad yw’r wybodaeth ariannol a ddarperir i gyd-fynd â’r Bil yn nodi a fyddai’r swm y byddai awdurdodau lleol yn ei gasglu drwy hysbysiadau cosb benodedig yn ddigon i

---

<sup>19</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2016, paragraff 56

<sup>20</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2016, paragraff 60

<sup>21</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2016, paragraff 63

<sup>22</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2016, paragraff 68



dalw am y gost o orfodi'r ddeddfwriaeth. Mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch y diffyg gwybodaeth hwn gan y gallai manylion o'r fath gynorthwyo awdurdodau lleol i asesu'r goblygiadau ariannol a fyddai ynghlwm wrth roi darpariaethau'r Bil ar waith.

**32.** Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid pennu'r un hysbysiadau cosb benodedig ar gyfer yr holl awdurdodau lleol, gan ddiystyru unrhyw wahaniaeth yn y gost y byddai awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth iddynt roi'r darpariaethau hyn ar waith.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn ailfynegi argymhelliad y Pwyllgor blaenorol sef y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi gwybodaeth yn nodi faint o arian a godwyd gan bob awdurdod lleol drwy gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig i dalu'r costau gorfodi, ynghyd â gwybodaeth am y costau gorfodi y byddai'r awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth iddynt roi'r polisi hwn ar waith.

## 04. Y goblygiadau ariannol sydd ynghlwm wrth gyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer triniaethau arbennig

**33.** Mae Rhan 3 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau i gyflwyno system drwyddedu genedlaethol, orfodol i ymarferwyr triniaethau arbennig penodol. Y triniaethau a nodir yn y Bil yw aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatwio, a gwneir darpariaeth i ddiwygio'r rhestr hon o driniaethau drwy wneud rheoliadau. O holl elfennau amrywiol y Bil, hon sy'n arwain at y gyfran fwyaf o gostau ychwanegol, sef ychydig o dan £2 filiwn dros y cyfnod rhwng 2017-18 a 2021-22. Rhennir y costau hyn yn bennaf rhwng ymarferwyr cofrestredig ac anghofrestredig (£1.1 miliwn) a'r awdurdodau lleol (£840,000).<sup>23</sup>

**34.** Bydd y costau ychwanegol i'r awdurdodau lleol yn cynnwys y gost o atal ymarferwyr rhag rhoi triniaethau heb drwydded, y gost o gyflwyno Hysbysiadau Camau Adfer i safleoedd nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau'r drwydded a chostau cyffredinol eraill. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y bydd y costau cofrestru a'r costau sy'n gysylltiedig ag adnewyddu trwyddedau yn cael eu talu â'r incwm a gynhyrchir gan ymarferwyr triniaethau arbennig cofrestredig.

**35.** Bydd y costau ychwanegol a fydd yn wynebu ymarferwyr yn cynnwys y gost o ymgyfarwyddo â'r ddeddfwriaeth newydd, costau cofrestru a'r gost o wneud cais am drwydded.<sup>24</sup> Bydd costau ychwanegol hefyd am beidio â chydymffurfio â Hysbysiadau Camau Adfer, a gorfod talu dirwy, a byddai'r lleiafrif o ymarferwyr nad ydynt wedi'u cofrestru yn dioddef yn ariannol oherwydd yr hysbysiadau a fyddai'n eu hatal rhag cynnig triniaethau arbennig.

**36.** Byddai costau o ychydig o dan £60,000 i Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu a dosbarthu canllawiau, sesiynau hyfforddi i swyddogion iechyd yr amgylchedd a chodi ymwybyddiaeth.<sup>25</sup>

**37.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn tanlinellu mai un agwedd ar gostau nad yw wedi'i mesur yw'r gost o apelio yn erbyn y rhan hon o'r ddeddfwriaeth.<sup>26</sup> Byddai hyn yn cynnwys apelio yn erbyn penderfyniad i beidio â rhoi trwydded neu i beidio â chymeradwyo safle, yn ogystal â dirwyon yn ymwneud â chamau gorfodi. Er bod y Memorandwm Esboniadol yn nodi y byddai disgwyl i awdurdodau lleol gynorthwyo ymarferwyr a busnesau i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth cyn cymryd camau gorfodi, bydd awdurdodau lleol a llysoedd ynadon yn gwrando ar achosion apêl. Mae'n amcangyfrif y byddai llysoedd ynadon Cymru yn gwrando ar 10-15 o achosion apêl bob blwyddyn.

### Adennill costau trwyddedu a chofrestru awdurdodau lleol mewn perthynas â thriniaethau arbennig

**38.** Yn ystod y gwaith o graffu ar y Bil yng Nghyfnod 1 yn y Pedwerydd Cynulliad, disgrifiodd y Gweinidog ar y pryd sut roedd wedi'i saernïo mewn modd a oedd yn caniatáu i'r awdurdodau lleol adennill eu costau o ran trwyddedu a chofrestru ymarferwyr sy'n cynnig triniaethau arbennig. Argymhellodd y Pwyllgor Cyllid blaenorol y dylai Llywodraeth Cymru egluro a fyddai'r dyfarniad yn achos Hemming vs Cyngor Dinas Westminster yn effeithio ar rannau eraill o'r Bil ac y dylai esbonio'r math o gynllun trwyddedu y gellid ei gyflwyno i godi ffioedd i'w defnyddio ar gyfer trwyddedau triniaethau arbennig.

<sup>23</sup> Y Memorandwm Esboniadol, Tablau 7.21, tudalennau 180-182

<sup>24</sup> Y Memorandwm Esboniadol, Tablau 7.18, 7.19 a 7.20, tudalennau 177-179

<sup>25</sup> Y Memorandwm Esboniadol, Tablau 7.21, tudalennau 180-182

<sup>26</sup> Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 612

**39.** Ym mis Rhagfyr 2015, ymatebodd y Gweinidog ar y pryd na fyddai'r **dyfarniad**,<sup>27</sup> ym marn Llywodraeth Cymru, yn effeithio ar rannau eraill o'r Bil. Dywedodd hefyd mai'r awdurdodau lleol ddylai penderfynu sut y byddai'r cynlluniau'n gweithio yn eu hardaloedd eu hunain, cyn belled ag y byddent yn gweithredu'n unol â chyfraith yr UE. Mae Llywodraeth presennol Cymru wedi datgan wedi hynny bod y Bil wedi'i ddrafftio mewn ffordd sy'n golygu mai deiliaid trwyddedau yn hytrach nag ymgeiswyr fyddai'n talu'r ffioedd, a'i fod felly'n cydymffurfio â chyfraith yr UE.

**40.** **Cafwyd datganiad yn ddiweddar gan Lys Cyfiawnder yn yr Undeb Ewropeaidd** yn esbonio sut y gellir codi ffioedd fel rhan o gais i ddarparu gwasanaethau amrywiol fel rhan o achos Hemming vs Cyngor Dinas Westminster. Dywedodd y Llys hwn fod awdurdodau lleol, pan wneir cais, yn cael codi ffi sy'n cwmpasu costau'r awdurdod o ymdrin â'r cais ei hun. Ond, pan wneir cais, ni chaiff yr awdurdod lleol godi ffi sy'n cwmpasu costau'r awdurdod lleol i orfodi'r gyfundrefn drwyddedu'n gyffredinol - hyd yn oed os yw'r elfen honno o'r ffi ymgeisio a godir yn cael ei had-dalu i ymgeiswyr aflwyddiannus.

**41.** Cadarnhaodd y Gweinidog fod y Bil yn cydymffurfio â chyfraith Ewrop yn dilyn dyfarniad Hemming:

“I'm happy to confirm that the Bill is very much in compliance with European law on this point following the Hemming judgment ... the Bill provides that, when applying for a licence, an applicant can only be charged a fee that is set having regard to administration costs. But then section 73 of the bill provides local authorities with the power to charge licence holders an additional fee for the management and enforcement of the licensing system. So that's an example of how the Bill is compatible with law on this point.”<sup>28</sup>

## Safbwynt y Pwyllgor

**42.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r sicrwydd a gafwyd gan y Gweinidog fod y Bil yn cydymffurfio â chyfraith Ewrop yn dilyn y dyfarniad yn achos Hemmings v Cyngor Dinas Westminster a'r eglurder y mae hyn yn ei roi i awdurdodau lleol ac ymgeiswyr o ran sut y gellir defnyddio'r ffi ymgeisio.

<sup>27</sup> [Llythyr gan y Gweinidog blaenorol dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Pwyllgor Cyllid blaenorol, 7 Rhagfyr 2015](#)

<sup>28</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2016, paragraff 75

## 05. Y goblygiadau ariannol sydd ynghlwm wrth gyflwyno asesiadau o'r effaith ar iechyd

**43.** Mae Rhan 5 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch yr amgylchiadau a fydd yn gorfodi cyrff cyhoeddus i asesu'r effaith ar iechyd. Yn ôl yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, bydd y costau ychwanegol a fydd ynghlwm wrth y rhan hon o'r Bil ychydig o dan £565,000 rhwng 2017-18 a 2020-21. Bydd y rhan fwyaf o'r swm hwn (£454,000) yn cael ei hysgwyddo gan gyrff cyhoeddus fel awdurdodau lleol, a bydd yn cynnwys ymgyfarwyddo â'r ddeddfwriaeth newydd, hyfforddiant a pharatoi asesiadau ychwanegol o effaith ar iechyd. Bydd Llywodraeth Cymru yn wynebu costau o £77,500 i ddiweddarau'r canllawiau, i gyfathrebu ac i baratoi asesiadau ychwanegol o effaith ar iechyd. Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn wynebu costau o £33,000 i baratoi canllawiau, a pharatoi hyfforddiant ac adnoddau ychwanegol.<sup>29</sup>

**44.** Roedd llawer o ymatebwyr i ymgynghoriad y Pwyllgor Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Chwaraeon o blaid cynnwys asesiadau o effaith ar iechyd yn y Bil. Fodd bynnag, nododd Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd ("CIEH") a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd fod angen ystyried y goblygiadau ariannol cysylltiedig. Nododd y CIEH:

"As evidenced the CIEH strongly supports HIAs as a mechanism for protecting and improving health and wellbeing, however we note that their statutory inclusion in some developments will have cost implications for local authorities. It is important to ensure local authority environmental health departments have sufficient resources to deliver the required health impact assessments where these are generated by the local authority and to consider the merit of those submitted by developers in support of proposals and that there is funding available to ensure that staff who will be required to deliver or assess HIAs are trained to the appropriate level to allow them to do so."<sup>30</sup>

**45.** Argymhellodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd:

"that the use of HIAs is proportionate to the policy being considered and takes into consideration the resources available to the body required to carry them out."<sup>31</sup>

**46.** Dywedodd Dr Nnoaham, Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf wrth y Pwyllgor y dylid gwneud rhagor i egluro goblygiadau'r darpariaethau'n ymwneud ag asesu'r effaith ar iechyd o safbwynt adnoddau:

"I believe there is perhaps a need to be clearer about resource implications. So, how is this going to be done? What is the methodology? What is the process? I am aware that there's a standard methodology around health impact assessments. Are we going to adopt that methodology? Is there a need to look at alternative methodologies that would be more efficient and what is the

<sup>29</sup> Y Memorandwm Esboniadol, Tabl A4.6, Tudalen 330-331

<sup>30</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, [PHB 05, Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd](#)

<sup>31</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, [PHB 37, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd](#)

resource implication? I think those are the accompanying questions that do need to be posed and answered. But I think it is a very good start in the Bill around health impact assessments.”<sup>32</sup>

**47.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor nad nod y darpariaethau oedd cynyddu nifer yr asesiadau o effaith ar iechyd, ond cryfhau a ffurfioli'r trefniadau presennol. Cyfeiriodd at yr arbenigedd sydd ar gael eisoes yng nghyffwrdd cyhoeddus Cymru, gan gynnwys yr Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru sy'n rhan o lechyd Cyhoeddus Cymru, a fyddai, meddai, yn gallu rhoi cyngor a chymorth i'r rhai sy'n cynnal yr asesiadau. O ran y gost arfaethedig o gynnal asesiadau effaith ar iechyd, dywedodd y Gweinidog:

“Most health impact assessments are likely to be fairly rapid and small. I think the cost estimate for that is around £2,000, and that includes staff time as well. There would be a small—a much, much smaller number that would be the major health impact assessments, costing, for example, £30,000 to £150,000, potentially taking place over a number of years. Those would, really, be only for very major projects.”<sup>33</sup>

**48.** Mewn ymateb i gwestiynau gan y Pwyllgor am y gost o sefydlu trefniadau ychwanegol i'r system bresennol, gan gynnwys hyfforddi staff, dywedodd y Gweinidog fod y rhain wedi'u cynnwys yn y ffigurau a ddarparwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Ychwanegodd y byddai Llywodraeth Cymru yn diweddar ei chanllawiau ar asesu'r effaith ar iechyd gan gynnwys cyngor ar ddyblygu gwaith.<sup>34</sup>

**49.** Mewn perthynas â thrafod y gost o roi'r darpariaethau hyn ar waith gyda chyrrff cyhoeddus, dywedodd yr uwch swyddog sy'n gyfrifol am y Bil wrth y Pwyllgor:

“We've had general discussions about the Bill with the directors of public protection, for example, about the way that they can support health impact assessments in local government. My understanding is that they are generally very supportive.”<sup>35</sup>

## Safbwynt y Pwyllgor

**50.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod cyrrff cyhoeddus yn cynnal asesiadau gwahanol ar hyn o bryd fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ac, er ei fod yn croesawu'r gofyniad i asesu effaith rhai penderfyniadau ar iechyd, roedd yn credu bod yn rhaid osgoi dyblygu gwaith. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r sicrwydd a gafwyd gan y Gweinidog y bydd y canllawiau diwygiedig yn ymdrin â dyblygu gwaith, ond mae'n credu ei bod yn hanfodol i'r canllawiau esbonio sut y gellid creu cysylltiad rhwng asesiadau gwahanol. Mae'n credu y dylid osgoi sefyllfa lle mae adrannau neu gyrff gwahanol yn dyblygu gwaith, yn enwedig ar adeg pan mae cyrrff cyhoeddus yn wynebu pwysau ariannol.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai canllawiau Llywodraeth Cymru ar weithredu darpariaethau'n ymwneud ag asesu'r effaith ar iechyd esbonio'n glir sut y gellid creu cysylltiad rhwng yr asesiadau amrywiol y bydd cyrrff cyhoeddus yn eu cynnal, a hynny er mwyn osgoi'r gost o ddyblygu gwaith.

<sup>32</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2016, paragraff 225

<sup>33</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2016, paragraff 83

<sup>34</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2016, paragraff 92

<sup>35</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2016, paragraff 95

## 06. Y goblygiadau ariannol sydd ynghlwm wrth y darpariaethau'n ymwneud â gwasanaethau fferyllol

51. Mae Rhan 6 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chynllunio a darparu gwasanaethau fferyllol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio mai diben y darpariaethau hyn yw disodli'r system bresennol ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol â system sy'n seiliedig ar anghenion. Byddai hyn yn cynnwys defnyddio Asesiadau o Anghenion Fferyllol a chyflwyno trefn rheoli perfformiad i ganiatáu i gamau gael eu cymryd yn erbyn darparwyr sy'n tanberfformio, gan gynnwys trefn ymadael. Er y byddai costau ychwanegol o £1.5 miliwn i'r Byrddau Iechyd Lleol rhwng 2017-18 a 2021-22 ac ychydig dros £230,000 i gontractwyr fferyllol, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y bydd y manteision o ran iechyd y cyhoedd, gwerth £7.7 miliwn, yn llawer mwy na'r costau hyn.<sup>36</sup> Amcangyfrifir y byddai Llywodraeth Cymru hefyd yn arbed rhywfaint, sef £76,000, gan y byddai costau achosion apêl gan fferyllfeydd yn is, a byddai hyn yn fwy na'r gost o baratoi canllawiau.<sup>37</sup>

52. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod y costau ychwanegol i Fyrddau Iechyd Lleol wedi'u seilio ar y gost o gynnal Asesiadau o Anghenion Fferyllol, comisiynu gwasanaethau ychwanegol i ddiwallu anghenion fferyllol a rheoli contractwyr fferyllol nad yw eu perfformiad yn ddigonol. Mae'n dweud hefyd mai contractwyr fferyllol fydd yn ysgwyddo'r gost o ddarparu gwybodaeth i alluogi'r Byrddau Iechyd Lleol i asesu eu perfformiad, a'r gost o ymateb i gamau a gymerir i fynd i'r afael â pherfformiad gwael.<sup>38</sup>

53. Mae'r manteision iechyd wedi'u cyfrifo drwy amcangyfrif y bydd cynnydd o 20 y cant mewn gwasanaethau fferyllol. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn mesur y buddion ar sail canlyniadau'r gwasanaethau a gynigir mewn fferyllfeydd i helpu pobl i roi'r gorau i ysmegu ar dudalennau 222-225.<sup>39</sup> A bwrw y bydd cynnydd o 20 y cant yn y gwasanaethau a ddarperir o 2019-20 ymlaen, amcangyfrifir y bydd buddion gwerth £2.58 miliwn y flwyddyn rhwng 2019-20 a 2021-22, sef buddion gwerth £7.7 miliwn at ei gilydd yn ystod y cyfnod hwn.<sup>40</sup>

54. Yn ôl y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, roedd y cyrff sy'n cynrychioli fferyllfeydd a fferyllwyr o blaid y darpariaethau yn y Bil, at ei gilydd. Tanlinellodd y Chemists Company Association Ltd yr angen i ystyried goblygiadau ariannol y rhan hon o'r Bil i'r byrddau iechyd lleol, gan nodi un ganlyniadau anfwriadol posibl y Bil, sef:

---

“The inevitable cost implications with the introduction, implementation and sustainability of pharmaceutical needs assessments to be borne by the Health Boards already under severe financial pressures.”<sup>41</sup>

---

55. Un agwedd sydd wedi newid o ran y costau a'r buddion a nodir yn y Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) blaenorol yw nad yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil hwn yn cynnwys buddion ariannol sy'n gysylltiedig â lleihau'r amser teithio i gael gwasanaethau fferyllol. Yn y Bil blaenorol amcangyfrifwyd mai tua £1.3 miliwn fyddai'r buddion yn ystod y pum mlynedd ar ôl i'r Bil ddod i rym.

<sup>36</sup> Y Memorandwm Esboniadol, Tabl 7.35, tudalen 232.

<sup>37</sup> Y Memorandwm Esboniadol, Tabl 7.35, tudalen 230 a Thabl 7.36, tudalen 232

<sup>38</sup> Y Memorandwm Esboniadol, Tabl 7.35, tudalennau 230-231

<sup>39</sup> Y Memorandwm Esboniadol, paragraffau 786-800, tudalennau 222-225

<sup>40</sup> Y Memorandwm Esboniadol, Tabl 7.36, tudalen 232.

<sup>41</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, **PHB 23, Company Chemists Association Ltd**

Roedd y Pwyllgor blaenorol wedi argymhell y dylai'r Gweinidog roi rhagor o fanylion am y gwaith a wnaed i amcangyfrif y buddion hyn, a rhoi gwybod a oedd hyn yn seiliedig ar unrhyw waith blaenorol a wnaed yn y maes hwn. Derbyniodd y Gweinidog ar y pryd yr argymhellid hwn, gan roi manylion yn ei ymateb i'r Pwyllgor.

**56.** Cadarnhaodd y Gweinidog na fyddai unrhyw gyllid ychwanegol yn cael ei roi i fyrddau iechyd lleol i roi'r darpariaethau hyn ar waith, ond y byddai'n disgwyl y canlynol:

“local health boards would undertake this work alongside the work that they’re doing under the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 to ensure that their pharmaceutical needs assessments are undertaken at the same time as their local well-being plan assessments. In doing so, it’s possible then for health boards to utilise those population assessments for the purposes of the pharmaceutical needs assessments. So, there would be no major extra costs to local authorities in terms of developing them.”<sup>42</sup>

**57.** Mewn ymateb i gwestiwn gan y Pwyllgor ynglŷn â pham mae'r buddiannau ariannol a ragwelir yn sgil gweithredu'r darpariaethau'n ymwneud â gwasanaethau fferyllol, yn union yr un fath ar gyfer pob blwyddyn, esboniodd yr uwch swyddog cyfrifol:

“When we calculated the health benefits, we only took account of one increase in services provided by pharmacies and that is smoking cessation, because that is the area where we have best evidence about how we could cost the health benefits. So, we expect, over a number of years, to have more smoking-cessation facilities in pharmacies. Over the three-year period, we think it was reasonable to assume that, for that area, there would be a continuing increase in benefits from more smokers giving up through going to pharmacies for their smoking-cessation support. So, that’s why, for those periods, it is constant. But we didn’t take account of any increase in any other services that pharmacies might develop during that period because we didn’t think there was sufficient evidence of the financial benefits that will be accrued from those additional services. So, it’s a very conservative figure for benefits, we think”<sup>43</sup>

**58.** Eglurodd y Gweinidog nad oedd y Bil hwn yn cynnwys y ffigurau a ddefnyddiwyd yn y Bil blaenorol i amcangyfrif y buddion cysylltiedig â lleihau amser teithio, a hynny oherwydd pryderon y Pwyllgor Cyllid blaenorol ynghylch dibynadwyedd y ffigurau hynny.<sup>44</sup>

## Safbwynt y Pwyllgor

**59.** Mae'r Pwyllgor yn deall yr anawsterau'n gysylltiedig â chyfrifo buddion mewn ffordd ddibynadwy. Fodd bynnag, mae'n pryderu mai drwy ganolbwyntio ar un agwedd ar wasanaethau fferyllol yn unig, mae'n cyfyngu ar y gallu i ddeall buddion arfaethedig y Bil. Er ei bod yn deall y rhesymau pam nad yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys y buddion a nodwyd yn yr Asesiad blaenorol ynghylch lleihau amser teithio, mae'r Pwyllgor yn pryderu bod hyn yn gadael dim ond un budd.

<sup>42</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2016, paragraff 101

<sup>43</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2016, paragraff 104

<sup>44</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2016, paragraff 108

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn egluro'r camau a gymerodd i geisio gwella'r ffordd y cyfrifiwyd y buddion cysylltiedig â lleihau amser teithio, cyn penderfynu peidio â'u cynnwys yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil hwn.



## 07. Goblygiadau ariannol y cynigion sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi strategaethau toiledau lleol

60. Mae Rhan 2 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi strategaeth i ddarparu toiledau cyhoeddus. Ni fyddai'r darpariaethau'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol i fynd ati eu hunain i ddarparu toiledau. Byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i roi £200,000 tuag at wella mynediad cyhoeddus i doiledau.<sup>45</sup> Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y byddai costau ychwanegol o ychydig dros £450,000 ynghlwm wrth yr elfen hon yn y Bil, ac y byddai ychydig dros £440,000 yn cael ei ysgwyddo gan awdurdodau lleol. Byddai awdurdodau lleol yn ysgwyddo'r gost o ddatblygu ac ymgynghori ar eu strategaeth, a rhai mân gostau ychwanegol yn gysylltiedig â rheoli'r broses o ddyrannu grantiau i fusnesau sy'n caniatáu i'r cyhoedd ddefnyddio'u toiledau. At hynny, byddai Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo ychydig o gostau ychwanegol yn gysylltiedig â pharatoi ac adolygu canllawiau.<sup>46</sup>

61. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn egluro bod Llywodraeth Cymru wedi dewis peidio â gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i sicrhau mynediad i doiledau, a hynny oherwydd y gost ychwanegol o fuddsoddi cyfalaf a chynnal a chadw darpariaeth ychwanegol – yn ôl amcangyfrif Llywodraeth Cymru, byddai hyn yn costio rhwng £32 miliwn a £64 miliwn rhwng 2017-18 a 2021-22.<sup>47</sup>

62. Roedd nifer o awdurdodau lleol a sefydliadau sy'n cynrychioli staff adrannau iechyd yr amgylchedd a diogelu'r cyhoedd mewn awdurdodau lleol yn pryderu na fyddai'r gwaith o baratoi strategaethau, ynddo'u hun, yn cyflawni amcanion y polisi. Yn ôl Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru:

“DPPW recognises the potential health and environmental impact of a lack of public toilet facilities, some direct some indirect... We also recognise that the resource climate has put local authorities under significant pressure and point out that a strategy will have no impact if it is merely that.”<sup>48</sup>

63. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod y cynigion yn y Bil yn ffordd “resymol a chymesur” o geisio geisio gwella mynediad i doiledau cyhoeddus o ystyried y pwysau ariannol sy'n wynebu awdurdodau lleol.<sup>49</sup> Mewn ymateb i gwestiynau gan y Pwyllgor ynghylch a fyddai'r arian a fyddai'n cael ei wario ar gynhyrchu'r strategaethau yn sicrhau gwerth am arian pe na bai gwasanaethau'n gwella o ganlyniad i'r strategaethau hynny, dywedodd y Gweinidog ei bod yn credu y byddai'r ddarpariaeth yn gwella mynediad i gyfleusterau.<sup>50</sup>

### Safbwynt y Pwyllgor

64. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod na ddylai'r costau yr amcangyfrifir y byddai awdurdodau lleol yn eu hwynebu mewn perthynas â pharatoi strategaethau toiledau lleol fod yn arwyddocaol. Roedd yn pryderu, fodd bynnag, na fyddai'r strategaethau, ynddynt euhunain, yn gwella mynediad cyhoeddus i

<sup>45</sup> Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 862

<sup>46</sup> Y Memorandwm Esboniadol, Tabl A4.8, tudalen 331.

<sup>47</sup> Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 898

<sup>48</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, **PHB 07, Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru**

<sup>49</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2016, paragraff 110

<sup>50</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2016, paragraffau 127-132

doiledau ac, felly, na fyddai'r buddsoddiad yn sicrhau gwerth am arian. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai Llywodraeth Cymru adolygu pa mor effeithol fyddai'r darpariaethau'n ymwneud â thoiledau cyhoeddus o ran gwella mynediad i gyfleusterau a sicrhau gwerth am arian.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu pa mor effeithiol fyddai'r darpariaethau'n ymwneud â thoiledau cyhoeddus o ran gwella mynediad i gyfleusterau a sicrhau gwerth am arian.

## 08. Goblygiadau ariannol is-ddeddfwriaeth:

**65.** Mae'r Bil yn cynnwys nifer o ddarpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth. Er y caiff Asesiadau Effaith Rheoleiddiol eu cynhyrchu i ddangos y costau a'r buddion pan gyflwynir y gwahanol ddarnau o is-ddeddfwriaeth, nid yw gwybodaeth o'r fath yn cael ei chynnwys yn y costau a'r buddion ar gyfer y Bil hwn.

**66.** Wrth i'r Pwyllgor blaenorol graffu ar ddeddfwriaeth, nododd na fyddai'r broses o ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol drwy is-ddeddfwriaeth yn caniatáu i'r Cynulliad graffu'n ddigon manwl ar y goblygiadau ariannol. O ran Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) a gyflwynwyd yn y Pedwerydd Cynulliad, argymhellodd y Pwyllgor blaenorol y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i ddatblygu dull mwy cyson o ddangos y costau cysylltiedig ag is-ddeddfwriaeth er mwyn caniatáu i'r Cynulliad graffu'n fanylach ar oblygiadau ariannol Biliau. Cafodd yr argymhelliad ei dderbyn o ran egwyddor gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, a nododd y byddai hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad o ddeddfwriaeth ar ddiwedd y Pedwerydd Cynulliad.

**67.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod rhai costau amcangyfrifedig yn ymwneud â darpariaethau i'w gwneud drwy is-ddeddfwriaeth wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gan gynnwys y gost o osod arwyddion mewn mannau agored di-fwg a chynhyrchu asesiadau ychwanegol o'r effaith ar iechyd. Ychwanegodd na fu modd amcangyfrif costau ar gyfer rhai agweddau, ac roedd wedi ychwanegu triniaethau arbennig at y rhestr o'r rhai a oedd wedi'u cynnwys yn y system drwyddedu, gan ei bod yn anodd rhagweld sut y gallai tueddiadau ffasiwn yn y dyfodol ddylanwadu ar y costau.<sup>51</sup>

### Safbwynt y Pwyllgor

**68.** Mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn bwysig amcangyfrif y gost o weithredu darpariaethau a wneir o dan is-ddeddfwriaeth er mwyn galluogi'r Cynulliad i ddeall costau a buddion Biliau'n llawn.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn ailfynegi argymhelliad y Pwyllgor blaenorol y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i ddatblygu dull mwy cyson o ddarparu costau cysylltiedig ag is-ddeddfwriaeth, a hynny yn achos pob Bil, er mwyn gallu craffu'n well ar y costau a buddion llawn.

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid darparu'r gost amcangyfrifedig o roi is-ddeddfwriaeth ar waith, pan fo modd, pan gaiff Memorandwm Esboniadol diwygiedig ei gyhoeddi.

---

<sup>51</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2016, paragraffau 136-137